

# Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

## Cynllun Pensiwn Prifysgol Caerdydd

Rhagfyr 2021

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	1
2. Amcanion a strategaeth buddsoddi .....	2
3. Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol .....	5
4. Penodi rheolwyr buddsoddi .....	6
5. Materion Arall .....	7
6. Adolygu.....	11
Atodiad 1 – Rheolwyr, dyrannu asedau a manylion y gronfa .....	12

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Beth yw diben y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi hwn ("SIP")?

Mae'r SIP hwn yn nodi polisi'r Ymddiriedolwyr ar faterion sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch buddsoddiadau Cynllun Pensiwn Prifysgol Caerdydd (y "Cynllun").

Cynllun Pensiwn Cofrestredig at ddibenion Deddf Cyllid 2004 yw'r Cynllun. Mae'r Cynllun yn Gynllun Buddiannau Diffiniedig ("DB").

## 1.2. Beth yw cefndir cyfreithiol a statudol y SIP?

Lluniwyd y SIP i fodloni gofynion Adran 35 o Ddeddf Pensiynau 1995 (y "Ddeddf") a'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau dilynol gan y Rheoleiddiwr Pensiynau sy'n berthnasol i gynlluniau pensiwn y DU.

Mae asedau'r Cynllun yn cael eu cadw mewn ymddiriedolaeth gan yr Ymddiriedolwyr. Nodir pwerau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr yng Ngweithred Ymddiriedolaeth y Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gweithredu Is-bwyllgor Buddsoddi ("ISC") i oruchwylio materion y Cynllun sy'n ymwneud â buddsoddiadau. Mae Cylch Gorchwyl ISC yn amlinellu'r pwerau a ddirprwywyd i'r ISC gan yr Ymddiriedolwyr.

## 1.3. Pwy sydd wedi cael mewnbwn i'r SIP?

Lluniwyd y SIP hwn ar ôl cael ac ystyried cyngor proffesiynol ysgrifenedig gan Quantum Actuarial LLP sy'n masnachu o dan yr enw Quantum Advisory ("Quantum"), cyngorydd buddsoddi'r Ymddiriedolwyr, ac ymgynghori â Phrifysgol Caerdydd (y "Cyflogwr Noddi") yn unol â gofynion y Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol. Mae gan Quantum yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau i roi cyngor proffesiynol ar reoli buddsoddiadau'r Cynllun.

## 2. Amcanion a strategaeth buddsoddi

### 2.1 Polisi buddsoddi

Yr Ymddiriedolwyr sy'n cadw asedau'r Cynllun mewn ymddiriedolaeth. Nodir pwerau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr yng Ngweithred Ymddiriedolaeth y Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r angen i fuddsoddi asedau er budd gorau ac unig yr aelodau a bod yn rhaid arfer y pwerau buddsoddi mewn modd sy'n cefnogi diogelwch, ansawdd, hylifedd a phroffidioldeb y Cynllun yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod yn rhaid i asedau'r Cynllun gynnwys buddsoddiadau a dderbynnir yn bennaf i fasnachu ar farchnadoedd a reoleiddir a rhaid cadw buddsoddiad mewn asedau nad ydynt yn cael eu derbyn i fasnachu ar farchnadoedd o'r fath, beth bynnag, i lefel ddarbodus.

### 2.2. Amcan buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr, gyda chymorth eu cyngorwyr ac mewn ymgynghoriad â'r Cyflogwr Noddi, yn gosod y strategaeth fuddsoddi gyfredol ar ôl ystyried ei hamcanion a materion cysylltiedig eraill ddiwedd 2020 / dechrau 2021.

Nododd yr Ymddiriedolwyr yr angen i fuddsoddi mewn modd sy'n helpu i wneud yn siŵr bod y buddion a addawyd i aelodau ar gael. Dros y tymor hir, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyfradd enillion gael ei chyflawni sy'n cefnogi'r cynllun ariannu hirdymor sydd wedi'i drafod gyda'r Cyflogwr Sy'n Noddi. Yn y tymor byr, mae'n golygu rheoli ansefydlogrwydd asedau mewn perthynas â gwerth rhwymedigaethau, sydd â nodweddion tebyg i fondiau.

### 2.3. Pa risgiau a ystyriwyd a sut y cânt eu rheoli?

Er mwyn cyflawni eu hamcanion, roedd yr Ymddiriedolwyr yn cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn asedau "sy'n ceisio enillion" a "paru atebolrwydd" (gweler 2.4). Nododd yr Ymddiriedolwyr y risgiau buddsoddi canlynol:

- y risg na fydd enillion buddsoddiadau yn gyffredinol yn cyflawni disgwyliadau;
- y risg na fydd rheolwr buddsoddi yn cyrraedd ei dargedau;
- y risg y gallai gwerth rhwymedigaethau gynyddu oherwydd newidiadau mewn chwyddiant a chyfraddau llog gwirioneddol a disgwyliedig;
- y risg o gamgymharu rhwng gwerth ac amseriad incwm a gwariant y Cynllun;
- y risg o ddiffyg yn yr asedau hylifol sydd gan y Cynllun mewn perthynas â'i rwymedigaethau uniongyrchol;
- y risg y gall perfformiad unrhyw fuddsoddiad unigol o fewn asedau'r Cynllun effeithio'n anghymesur ar allu'r Cynllun i gyflawni ei amcanion buddsoddi cyffredinol
- y risg o gam-ddefnyddio, defnyddio heb awdurdod neu gam-gyflenwi asedau'r Cynllun; a
- y risg y bydd ffactorau ESG, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, yn cael effaith andwyol ar werth asedau'r Cynllun os na roddir ystyriaeth briodol i hyn a/neu os ydynt yn cael eu camddeall.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y gwahanol fathau hyn o risg ac yn ceisio eu lleihau cyn belled ag y bo modd trwy ddefnyddio monitro perfformiad buddsoddi yn rheolaidd; trwy bolisi

arallgyfeirio bwriadol; trwy ystyried amseriad taliadau yn y dyfodol; a thrwy adolygu priodoldeb y strategaeth gyffredinol yn rheolaidd yn erbyn amcanion y Cynllun.

## 2.4. Beth yw'r strategaeth fuddsoddi?

Yn 2021, gosodwyd strategaeth fuddsoddi newydd. Nod y strategaeth yw cynnig cymysgedd priodol o fuddsoddiadau, sy'n cefnogi amcanion buddsoddi'r Cynllun. Nodir manylion hyn yn Atodiad 1.

Mae'r strategaeth fuddsoddi yn defnyddio dau fath allweddol o asedau:

- "asedau paru": sy'n arddangos nodweddion tebyg i rai rhwymedigaethau'r Cynllun.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- "buddsoddiad wedi'i anelu at atebolrwydd ("LDI"): sydd wedi'i gynllunio i ddiogelu amlygiad y Cynllun i newidiadau mewn chwyddiant a chyfraddau llog wrth barhau i ganiatáu amlygiad o ran asedau sy'n ceisio enillion. Penodwyd rheolwr LDI i reoli'r strategaeth LDI. Gweithredir digwyddiadau cyfochrog yn awtomatig gan y rheolwr LDI, sy'n symud asedau i'r gronfa arian parod ac ohoni yn ôl yr angen. Mae'r symudiadau hyn yn cael eu monitro gan Quantum a'r Ymddiriedolwyr. Mae lefel y daliad arian parod yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd / yn unol â gofynion Quantum a'r Ymddiriedolwyr.
- Bondiau corfforaethol: sy'n rhoi rhywfaint o amddiffyniad rhag newidiadau o ran cyfraddau llog.
- "asedau sy'n ceisio enillion": sy'n targedu cyfradd enillion sy'n fwy na'r enillion risg lleiaf. Yn nodweddiadol, ecwiti yw'r rhain neu gronfa amrywiol o asedau eraill nad ydynt yn paru, y gellir disgwyl iddynt, dros y tymor hir, gynnig 3% i 4% y flwyddyn yn uwch na'r enillion risg lleiaf.

Mae'r Ymddiriedolwr yn monitro perfformiad buddsoddiadau'r Cynllun bob chwarter. Derbynnir cyngor ysgrifenedig yn ôl yr angen gan ei gynghorwyr buddsoddi.

Dylid nodi; yn rhan o'r broses o ddethol ac adolygu rheolwyr buddsoddi ar gyfer y strategaeth, ystyriwyd i ba raddau y mae gan reolwyr buddsoddi unigol bolisiau ac arferion priodol mewn perthynas ag ESG. Mae hyn yn mynd i'r afael yn benodol ag **ystyriaethau ariannol perthnasol** (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ESG (gan gynnwys newid yn yr hinsawdd) a **pholisiau stiwardiaeth/ pleidleisio**, ac mae'n cynnwys asesu arferion sgrinio ac ymgysylltu â chyfranddalwyr, yn ogystal â nifer o feysydd eraill. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried **ffactorau anariannol**, wrth fonitro a dethol eu buddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylion am y polisiau hyn yn adran 5.2.

## 2.5. Rheolwyr cronfeydd, arddull ac elw o fuddsoddiadau

Cronfeydd cyfun yw'r cronfeydd y mae'r Cynllun yn buddsoddi ynddynt, ac mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod y rhain yn briodol o ystyried maint a natur y Cynllun. Ceir manylion yr arian, rheolwyr, arddulliau, meincnodau a'r elw o fuddsoddiadau a ddefnyddir gan y Cynllun yn Atodiad 1.

## 2.6. Diogelu arian cyfred

Mae amlygiad arian cyfred ar fuddsoddiadau tramor yn cael ei ddiogelu 'nôl i sterling gan y rheolwyr (lle bo'n bosibl), neu'n cael ei reoli'n weithredol ar y cyd â strategaeth ehangach y cronfeydd perthnasol.

## 2.7. Rheoli llif arian

Gwneir buddsoddiadau er mwyn cynorthwyo'r Cynllun i gynnal meincnod strategol y portffolio. Dyrennir buddsoddiadau i'r cronfeydd sy'n tanberfformio fwyaf mewn trefn ddilynol. Gwneir dadfuddsoddiadau er mwyn cynorthwyo'r Cynllun i gynnal ei ddyraniad meincnod strategol (ac eithrio'r daliad yng Nghronfa Cenedlaethau'r Partneriaid, o ystyried natur tymor hwy / caeth y dull buddsoddi hwn a'r strategaeth LDI). Gwneir dadfuddsoddiadau o'r cronfeydd sydd gyda'r asedau mwyaf mewn trefn ddilyniannol. Mae strategaeth LDI y Cynllun Pensiwn yn defnyddio gwasanaeth cyfarwyddiadau cyfochrog awtomatig, pan fydd galwadau a dosraniadau cyfochrog yn cael eu dadfuddsoddi neu eu buddsoddi'n awtomatig o'r gronfa Insight Liquidity Plus neu iddi.

## 2.8 Ailgydbwysu

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu'r dyraniad asedau o'i gymharu â'r ystodau goddefgarwch priodol a nodir yn Atodiad 1, bob chwarter. Os bydd y dyraniad i unrhyw ddsbarth asedau yn symud y tu allan i'r ystodau goddefgarwch, bydd yr Ymddiriedolwyr, gyda chymorth eu cynghorydd buddsoddi, yn ymgymryd â'r newidiadau angenrheidiol i ddod â'r arian perthnasol yn ôl i'r meincnod canolog.

At hynny, lle bo hynny'n bosibl, mae'r Cynllun yn defnyddio llifau arian i ailgydbwysu'r portffolio sy'n ceisio enillion yn ôl i'r meincnod strategol fel y nodir yn adran 2.7.

Mae'r strategaeth LDI a Chronfa Cenedlaethau Grŵp y Partneriaid wedi'u heithrio o'r weithdrefn hon, ond mae'r Ymddiriedolwyr, gyda chymorth eu cynghorwyr buddsoddi, yn adolygu'r daliadau hyn o bryd i'w gilydd.

### 3. Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol

Caiff Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol eu buddsoddi yn y Gronfa drwy brynu unedau tybiannol sy'n cynrychioli polisi'r rheolwyr buddsoddi sy'n buddsoddi asedau'r Gronfa. Cynigir blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth i'r Aelodau yn y Gronfa yn gyfnewid am yr unedau tybiannol hyn.

## 4. Penodi rheolwyr buddsoddi

### 4.1. Faint o reolwyr buddsoddi sydd ar gael?

Amlinellir manylion y rheolwyr buddsoddi a benodwyd yn Atodiad 1.

Mae'r berthynas â phob rheolwr buddsoddi yn benagored ac yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd. Nodir dyddiad penodi pob cronfa yn Atodiad 1.

### 4.2. Pa gytundebau ffurfiol sydd gyda'r rheolwyr buddsoddi a darparwr platfformau?

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dewis rheolwyr buddsoddi a chronfeydd sy'n briodol i roi'r strategaeth fuddsoddi ar waith.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi llofnodi dogfennau polisi a chytundebau rheoli buddsoddiad â'r rheolwyr buddsoddi, gan nodi'n fanwl delerau rheoli'r portffolio, gan gynnwys yr angen am fuddsoddiadau addas, amrywiol a phriodol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu penodiad pob rheolwr buddsoddi a byddant yn ceisio disodli unrhyw reolwyr, neu gronfeydd, nad ydynt bellach yn briodol i weithredu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun.

### 4.3. Beth yw cyfrifoldebau'r rheolwyr buddsoddi?

Mae'r rheolwr buddsoddi yn gyfrifol am reoli'r buddsoddiadau o ddydd i ddydd ac mae'n gyfrifol am benodi ceidwaid, os oes angen.

Awdurdodir y rheolwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i gyflawni gweithgareddau o'r fath.

Nodir unrhyw ofynion perfformiad ar gyfer y rheolwyr yn Atodiad 1.

### 4.4. Ceidwaid a gweinyddwyr

Mae buddsoddiadau'r Cynllun yn digwydd drwy blatfformau buddsoddi cyfun. Felly, nid oes angen i'r Ymddiriedolwyr benodi ceidwad yn ffurfiol gan fod y buddsoddiad yn cynnwys unedau a ddelir mewn platfformau buddsoddi rhestredig yn hytrach na'r stociau a'r cyfranddaliadau sylfaenol.

Mae'r rheolwyr sylfaenol wedi penodi ceidwaid ar gyfer cadw asedau'n ddiogel a nodir y rhain yn Atodiad 1.

### 4.5. Beth yw polisi'r Ymddiriedolwyr ar fuddsoddi yn y Cyflogwr sy'n Noddi?

Nid yw'r Cynllun yn cynnal buddsoddiadau yn uniongyrchol yn y Cyflogwr sy'n Noddi.



## 5. Materion Arall

### 5.1 Beth yw polisi'r Ymddiriedolwyr ar wireddu buddsoddiadau?

Cedwir asedau'r Cynllun mewn cronfeydd cyfun, y gellir cael mynediad atynt yn hawdd os bydd yr Ymddiriedolwyr yn mynnu hynny.

Er bod gan y Cynllun ar hyn o bryd lif arian positif, os bydd y Cynllun yn profi llif arian negatif, bydd yr Ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr yn cytuno ar faint o arian parod sydd ei angen ar gyfer taliadau budd-daliadau a gwariant arall a lle y dylid codi'r arian hwn.

### 5.2. Beth yw polisi'r Ymddiriedolwyr ar ystyriaethau ariannol perthnasol, ffactorau anariannol a pholisïau stiwardiaeth?

#### 5.2.1 Ystyriaethau ariannol perthnasol

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod yr effaith bosibl sy'n deillio o faterion ariannol perthnasol ar fuddsoddiadau ac aelodau'r cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn diffinio'r rhain fel rhai sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, faterion ESG (gan gynnwys newid yn yr hinsawdd).

Mae holl reolwyr buddsoddi'r cynllun wedi ymrwymo i Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi disgresiwn llawn i'r rheolwyr buddsoddi penodedig ynghylch y gwaith o werthuso ffactorau ESG. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu polisïau'r rheolwyr buddsoddi ar ffactorau ESG yn gyfnodol yn y ffyrdd canlynol:

- ymgysylltu'n uniongyrchol â'u rheolwyr buddsoddi e.e. yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi;
- Adroddiadau a chyngor ESG gan eu cynghorwyr buddsoddi, gan gynnwys cyflwyno adroddiad blynyddol sy'n crynhoi polisïau allweddol eu rheolwyr; a
- adolygu cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig ag ESG eu rheolwyr buddsoddi.

Wrth wneud hyn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu bod ESG wedi'i gynnwys yng nghanol prosesau buddsoddi eu rheolwyr, tra bod Legal & General Investment Management ("LGIM") (sy'n buddsoddi mewn cronfeydd olrhain mynegeion ac felly ni allant eithrio, na dewis, unrhyw fuddsoddiadau yn eu portffolio) yn defnyddio eu presenoldeb yn y farchnad i ymgysylltu'n weithredol â'r cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt ac arfer eu hawliau pleidleisio i gefnogi eu polisïau ESG.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r rheolwyr buddsoddi, lle bo'n berthnasol, ddefnyddio eu sefyllfa i ymgysylltu â chwmnïau ar faterion ESG.

Mae'r Ymddiriedolwr hefyd yn ystyried ffactorau ESG wrth bennu penderfyniadau'r strategaeth fuddsoddi yn y dyfodol. Hyd yma, nid yw'r Ymddiriedolwr wedi sefydlu unrhyw gyfyngiadau ar y rheolwyr buddsoddi penodedig ond gallant ystyried hyn yn y dyfodol.

#### 5.2.2 Ffactorau anariannol

Rhoddir cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a mynegi eu barn yn ystod cyfarfodydd agored blynyddol a thrwy gyfeiriad ebost dynodedig a reolir gan y Brifysgol. Caiff y sylwadau hyn eu

trafod gydag Is-bwyllgor Buddsoddi'r Cynllun a'u hystyried wrth ddewis, cadw a gwireddu buddsoddiadau.

### 5.2.3 Stiwardiaeth

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y cyfyngiadau sy'n eu hwynebu o ran dylanwadu ar newidiadau oherwydd maint a natur buddsoddiadau'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod yr angen i fod yn stiwardiaid cyfrifol, ac i arfer yr hawliau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau'r Cynllun Pensiwn mewn modd cyfrifol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut y mae ffactorau stiwardiaeth yn cael eu hintegreiddio i'r prosesau buddsoddi wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) adolygu rheolwyr buddsoddi cyfredol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi disgrisiwn llawn i'r rheolwyr buddsoddi penodedig ynghylch y gwaith o stiwardio eu buddsoddiadau.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu polisïau eu rheolwyr buddsoddi ar arfer hawliau pleidleisio ac yn monitro eu harferion ymgysylltu a'u gweithgarwch pleidleisio drwy ddirprwy yn eu hadroddiadau blynyddol.

## 5.3. Sut mae gwahanol bartïon sy'n ymwneud â buddsoddi asedau'r Cynllun yn cael eu talu?

Mae Quantum yn cael ei dalu ar sail ffi sefydlog neu ffi cost amser, a chytunir ar gyllidebau ar gyfer prosiectau pan fydd hynny'n bosibl.

Mae'r Cynllun yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn nodi na ellir teilwra strategaeth fuddsoddi a phenderfyniadau rheolwyr y gronfa i bolisïau'r Ymddiriedolwyr ac nad yw'r rheolwyr yn cael eu talu'n uniongyrchol ar y sail hon. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr, gyda chymorth Quantum, yn gosod y strategaeth fuddsoddi ar gyfer y Cynllun ac yn dewis rheolwyr a chronfeydd priodol i roi'r strategaeth ar waith.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn cymhell y rheolwyr buddsoddi yn uniongyrchol i ymgysylltu â'r cyhoeddwr dyled neu ecwiti i wella eu perfformiad. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r rheolwyr buddsoddi gymryd rhan yn y cyfryw weithgareddau fel sy'n briodol ac yn angenrheidiol i gyflawni amcanion buddsoddi'r gronfa berthnasol. Mae'r cronfeydd a ddefnyddir fel arfer yn cynnwys amcan y disgwylir iddo arwain at enillion cadarnhaol dros y tymor canolig i hirach. O'r herwydd, disgwylir i ymgysylltiad y rheolwyr buddsoddi â chyhoeddwr dyled neu ecwiti gael ei gyflawni er mwyn targedu creu gwerth yn y tymor canolig i hir.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y ffioedd a'r taliadau sy'n gysylltiedig â phob buddsoddiad cyn buddsoddi.

Mae'r rheolwyr buddsoddi yn cael eu talu ar sail ffi ad valorem, sy'n cael ei gyfrif yn ganran sefydlog o gyfanswm gwerth cronfeydd y Cynllun sydd ganddyn nhw yn eu rheolaeth. Yn ogystal, mae asedau'r farchnad breifat, sy'n cael eu rheoli'n weithredol, yn destun ffi sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Dewiswyd y strwythur hwn i gysoni buddiannau rheolwyr y gronfa â buddiannau'r Cynllun.

Yn ogystal, mae rheolwyr y gronfa yn talu comisiynau i drydydd parti ar lawer o'r trafodion masnachu y maent yn ymgymryd â hwy wrth reoli'r asedau. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cael datganiad blynyddol gan y rheolwyr buddsoddi sy'n nodi holl gostau buddsoddiadau'r Cynllun.

Telir Insight ar sail sy'n ymwneud â'r amlygiad economaidd a geir. Telir costau trafodion wrth weithredu pob cyfran o weithrediad LDI.

## 5.4. Buddsoddiadau uniongyrchol

Mae Deddf Pensiynau 1995 yn gwahaniaethu rhwng buddsoddiadau lle mae'r rheolwyr yn cael eu dirprwyo i reolwr cronfa gyda contract ysgrifenedig a'r rhai pan fydd cynnyrch yn cael ei brynu'n uniongyrchol e.e. prynu polisi neu unedau yswiriant mewn platfform cyfun. Gelwir y rhai olaf yn fuddsoddiadau uniongyrchol.

Polisi'r Ymddiriedolwyr yw adolygu ei fuddsoddiadau uniongyrchol a chael cyngor ysgrifenedig amdanynt yn rheolaidd. Wrth benderfynu a ddylid gwneud unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol newydd neu derfynu unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn cael cyngor ysgrifenedig gan gynghorydd buddsoddi'r Cynllun. Os yw'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad yw buddsoddiad bellach yn addas ar gyfer y Cynllun, byddant yn tynnu'r asedau yn ôl o'r trefniant yr ystyrir ei fod yn anaddas ac yn gwneud dewis addas arall.

Bydd y cyngor ysgrifenedig yn ystyried addasrwydd y buddsoddiadau, yr angen am arallgyfeirio a'r egwyddorion a geir yn y SIP hwn. Bydd gan y cynghorydd yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol o dan Adran 36(6) o'r Ddeddf Pensiynau i roi'r cyngor hwn.

## 5.5. A yw'r Ymddiriedolwyr yn gwneud unrhyw benderfyniadau buddsoddi ar eu pen eu hunain?

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am fuddsoddi asedau'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwneud rhai penderfyniadau eu hunain ac yn dirprwyo rhai eraill.

Wrth benderfynu pa benderfyniadau i'w gwneud, a pha rai i'w dirprwyo, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried a oes ganddynt yr hyfforddiant a'r arbenigedd priodol er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi sefydlu'r strwythur gwneud penderfyniadau canlynol:

### Ymddiriedolwyr

- Gosod strwythurau a phrosesau i gyflawni eu rôl.
- Cytuno ar strwythur i weithredu strategaeth fuddsoddi.
- Dewis a monitro dyraniad asedau a gynlluniwyd.
- Dewis a monitro cynghorwyr buddsoddi a rheolwyr cronfeydd.
- Dewis a monitro buddsoddiadau uniongyrchol.
- Paratoi a chynnal y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

### Bydd cynghorydd buddsoddi, pan fydd yr Ymddiriedolwyr yn gofyn amdano, yn:

- Cynghori ar bob agwedd ar fuddsoddi asedau'r Cynllun, gan gynnwys gweithredu.
- Cynghori ar y Datganiad hwn.
- Cynnig hyfforddiant gofynnol.

### Rheolwyr buddsoddi (neu gronfeydd)

- Gweithredu o fewn telerau'r contractau a'r cytundebau ysgrifenedig.
- Dewis buddsoddiadau unigol o ran eu haddasrwydd a'u harallgyfeirio ar gyfer y platfformau cyfun unigol.

- Sicrhau addasrwydd y meincnod a ddewiswyd ar gyfer y platfform buddsoddi priodol.

## 5.6 Strwythur cyfalaf cwmnïau buddsoddi

Mae'r cyfrifoldeb am fonitro strwythur cyfalaf cwmnïau buddsoddi (gan gynnwys unrhyw ddatblygiadau perthnasol) wedi'i ddirprwyo i'r rheolwyr buddsoddi. Disgwylir i reolwyr buddsoddi gymryd rhan mewn lefel ddigonol o fonitro a gweithredu sy'n briodol i natur y mandad.

## 5.7 Gwrthdaro buddiannau

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a gwirioneddol (yn amodol ar lefelau rhesymol o amherthnasedd) ar ddechrau pob cyfarfod Ymddiriedolwyr ac ISC ac yn eu dogfennu yn y cofnodion.

## 6. Adolygu

### 6.1. Pa mor aml y caiff buddsoddiadau eu hadolygu?

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu'r strategaeth fuddsoddi ochr yn ochr â phrisiadau actiwaraid bob tair blynedd y Cynllun, yn unol â dull Rheoli Risg Integredig y Rheoleiddiwr Pensiynau; ond gall adolygiadau amlach ddigwydd yn sgîl newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau, neu os bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau yn gofyn am hynny. Gall unrhyw newid yn y strategaeth fuddsoddi olygu bod angen newid rheolwyr buddsoddi, waeth beth fo perfformiad sylfaenol y cronfeydd.

Adolygir enillion buddsoddiad a pherfformiad cronfeydd unigol gyda chymorth Quantum bob chwarter. Caiff rheolwyr eu hadolygu yn erbyn eu meincnodau a'u targedau perfformiad y cytunwyd arnynt dros gyfnodau tymor byr a thymor hir, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau'n briodol i weithredu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun.

### 6.2. Sut mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro trosiant a chostau portffolios?

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r dewis o ddaliadau i'r rheolwyr buddsoddi penodedig. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gofyn am drosiant y portffolio a'r costau cysylltiedig gan eu rheolwyr buddsoddi yn flynyddol.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi gosod targed trosiant portffolio penodol ar gyfer pob rheolwr buddsoddi ac yn cydnabod y gall trosiant a chostau portffolios amrywio yn ôl amodau'r farchnad. Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb yn y pen draw am y daliadau sylfaenol yn eu cronfeydd a disgwylir iddynt newid y daliadau sylfaenol hyn i'r graddau sy'n ofynnol i gyflawni eu hamcanion buddsoddi.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cymharu'r trosiant blynyddol a'r costau cysylltiedig ar gyfer pob cronfa â blynyddoedd blaenorol i wneud yn siŵr bod proses ac athroniaeth pob rheolwr buddsoddi yn parhau'n gyson.

### 6.4. Pa mor aml y caiff y SIP hwn ei adolygu?

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r SIP hwn o leiaf bob tair blynedd a heb oedi ar ôl unrhyw newid sylweddol yn y polisi buddsoddi. Dim ond ar ôl cael ac ystyried cyngor ysgrifenedig rhywun y mae'r Ymddiriedolwyr yn credu'n rhesymol ei fod yn gymwys yn ôl ei allu mewn materion ariannol a'i brofiad ymarferol o faterion ariannol y bydd unrhyw newid yn y SIP hwn yn cael ei wneud. Hefyd mae'n rhaid bod ganddyn nhw'r wybodaeth a'r profiad priodol o reoli buddsoddiadau cynllun pensiwn; ac ymgynghori â'r Cyflogwr sy'n Noddi.

**Cytunwyd gan Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Prifysgol Caerdydd fis Rhagfyr 2021.**

# Atodiad 1 – Rheolwyr, dyrannu asedau a manylion y gronfa

## Rheolwyr a dyrannu asedau

Mae'r tabl canlynol yn dangos dyraniad yr asedau strategol yn y Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro dyraniad asedau'r Cynllun bob chwarter. Os bydd y dyraniad i unrhyw ddsbarth asedau yn symud y tu allan i'r ystodau goddefgarwch a nodir isod, bydd yr Ymddiriedolwyr, gyda chymorth eu cynghorydd buddsoddi, yn ymgymryd â'r newidiadau angenrheidiol i ddod â'r arian perthnasol yn ôl i'r meincnod canolog. Adolygir perfformiad o bryd i'w gilydd, gyda chymorth cynghorydd buddsoddi'r Cynllun yn ôl yr angen.

Dosbarth asedau	Rheolwr	Cronfa	Dyrannu asedau (%)	Ystod goddefgarwch (+/-) (%)
<b>Asedau sy'n ceisio enillion</b>			<b>65.5</b>	
Ecwiti	Legal & General Investment Management ("LGIM")	World Equity Index (wedi'i ddiogelu mewn GBP)	15.5	+/-2.0
Enillion Targedau Amrywiol	Newton Investment Management ("Newton")	Real Return	12.5	+/-4.0
	LGIM	Dynamic Diversified	12.5	
	M&G Investments ("M&G")	Episode Allocation	12.5	
Dewisiadau amgen	Partners Group	Generations	12.5	--
<b>Asedau paru*</b>			<b>34.5</b>	
Bondiau	M&G	Long Dated Corporate Bond	10.0	+/-1.5
Strategaeth LDI	Insight Investments Management Limited ("Insight")	Cronfeydd Giltiau a ariennir yn Rhannol a Chronfeydd Giltiau Mynegrifol	24.5	--
	Insight	Liquidity Plus		--
	--	Cyfrif banc cynllun pensiwn		
<b>Cyfanswm</b>			<b>100.0</b>	--

\*Mae'r asedau cyfatebol yn targedu tua 77% o gyfradd llog yr asedau yn sgîl diogelu a thua 70% o ran chwyddiant yn sgîl diogelu ar y dyddiad gweithredu.

## Manylion am y rheolwyr a'r gronfa

Mae'r tabl isod yn dangos y meincnodau, y targedau perfformiad a'r ceidwaid ar gyfer pob cronfa mae'r Cynllun wedi'i buddsoddi ynddo.

Dosbarth asedau	Cronfa	Meincnod	Amcan / Targed Perfformiad Rhagori	Ffi rheoli blynyddol	Ceidwad	Dyddiad penodi
<b>Asedau sy'n ceisio enillion</b>						
Ecwiti	LGIM World Equity Index (wedi'i ddiogelu drwy GBP)	FTSE All World – (wedi'i ddiogelu drwy GBP)	Olrhain perfformiad y meincnod (llai treth dal yn ôl os yw'n berthnasol) - wedi'i ddiogelu drwy GBP (ac eithrio marchnadoedd datblygedig sy'n dod i'r amlwg) i o fewn +/- 0.5% y flwyddyn am ddwy flynedd o dair.	0.223%	Citigroup a HSBC Global Investor Services	Awst 2018
Enillion Targedau Amrywiol	Newton Real Return	LIBOR 1 Mis y DU	Perfformio'n well na'r meincnod o 4% y flwyddyn dros bum mlynedd, cyn ffioedd.	0.75%	BNY Mellon	Awst 2010
	LGIM Dynamic Diversified	Cyfradd Sylfaenol Banc Lloegr	Perfformio'n well na'r meincnod o 4.5% y flwyddyn (gros o ran ffioedd) dros 5 mlynedd dreigl.	0.50%	HSBC	Medi 2020
	M&G Episode Allocation	LIBOR 1 Mis y DU	Perfformio'n well na'r meincnod o 5% y flwyddyn	0.55%	State Street Bank a Trust Company	Awst 2018
Dewisiadau amgen	Partners Group Generations	Amherthnasol	Cynhyrchu enillion net o 7% i 11% y flwyddyn yn net o ffioedd dros gylch llawn y farchnad.	1.25%	BNY Mellon	Gorffennaf 2018
<b>Asedau paru</b>						
Bondiau corfforaethol	M&G Long Dated Corporate Bond	iBoxx Sterling Over 15 Years Non-Gilts	Perfformio'n well na'r meincnod o 0.8% y flwyddyn gros o ffioedd, ar sail tair blynedd dreigl.	0.30%	HSBC	Awst 2010
LDI	Insight Partially Funded Gilts ac Index Linked Gilts Selection LDI Range	Amherthnasol	Rhoi enillion cychwynnol ac enillion sy'n gysylltiedig â chwyddiant drwy fuddsoddi'n bennaf yng ngiltiau llywodraeth y DU a giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai, ar sail ariannu'n rhannol	0.06% y flwyddyn ar asedau a fuddsoddwyd a thâl haenog ar amlygiad economaidd (0.060% y flwyddyn ar y £100m cyntaf, 0.05% y flwyddyn	Northern Trust Fiduciary Service (Ireland) Limited	Awst 2021
Arian parod	Insight Liquidity Plus	SONIA	Nod y Gronfa yw rhoi sefydlogrwydd cyfalaf ac incwm i fuddsoddwyr drwy fuddsoddi mewn incwm sefydlog tymor byr a gwarannau cyfraddau amrywiol.	0.10%	Northern Trust Fiduciary Service (Ireland) Limited	Awst 2018